Cytundeb Priodas

Oriel Plas Glyn-Y-Weddw

Dyddiad		Amser		Cost Llogi Safle a Gwsanaethau	

(Heb gynnwys costau arlwyo)

Enw'r Briodferch					
Rhif ffôn		Symudol		E-bost	
Cyfeiriad					
Enw'r Priodfab					
Rhif ffôn		Symudol		E-bost	
Cyfeiriad					
Enw'r Gwas Priodas		Symudol			
Enw'r cleiant sy'n talu		Rhif ffôn		Nifer y Gwesteion	
Thema'r briodas					

Nodwch gynllun lliwiau/traddodiadol/ffurfiol/anffurfiol ayb

Amser cychwyn sesiwn tynnu lluniau		Gorffen	
Amser cychwyn y wledd briodas/sesiwn arlwyo		*(os yn berthnasol)*	

GWASANAETHAU PRIODASOL SYDD WEDI'U CYTUNO AM Y COSTAU UCHOD

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Mae pob cytundeb gyda chwsmeriaid ynglŷn â phriodasau a chynadleddau yn Oriel Plas Glyn y Weddw yn cael eu derbyn ar sail y telerau isod:

1. Cytundeb Gyfan:

Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys y ddealltwriaeth gyflawn rhwng "Plas Glyn y Weddw" a chi Y CLEIANT. Mae'n disodli pob cytundeb flaenorol a chydamserol rhyngom. Yr unig fodd i ychwanegu neu newid y cytundeb hwn yw yn ysgrifenedig, a bod y ddogfen wedi ei harwyddo gan y partion perthnasol. Mae'n rhaid i bob gadarnhad gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid cynnwys y blaendal annychweladwy perthnasol. Ystyrir y person sy'n arwyddo'r cais llogi fel 'y cwsmer'. Lle gwneir cais i logi ar ran cwsmer neu gorff, y corff hwnnw fydd yn gyfrifol am y llogi, ynghyd â'r person sy'n gwneud y llogi. Rydym yn neilltuo'r hawl i ddiddymu'r weithgaredd os na dderbynir y tâl llawn a bod unrhyw arian wedi'i glirio erbyn dyddiad y gweithgaredd.

2. Neilltuo:

Wedi cael eich llofnod, bydd 'Plas Glyn y Weddw' yn neilltuo yr amser a'r dyddiad a gytunwyd, ac ni fyddant yn derbyn unrhyw geisiadau eraill am yr amser a'r dyddiad hwnnw. Y cwsmer fydd yn gyfrifol am bob costau a gyfyd o'r llogi, gan gynnwys tâl diddymu.

3. Diddymu:

In the event of cancellation "Plas Glyn-y-Weddw" reserves the right to claim for lost revenue. All cancellations must be received in writing. In the event of a cancellation the following charges will be applied and are exclusive of the booking fee:

Diddymu rhwng 9 – 12 mis	25% o'r pris llawn a osodwyd
Diddymu rhwng 6 – 9 mis	50% o'r pris llawn a osodwyd
Diddymu rhwng 3 a 6 mis	75% o'r pris llawn a osodw
Diddymu rhwng 1 a 3 mis	100% o'r pris llawn a osodwyd

4. Ymgynghoriadau:

Bydd y partion yn cytuno i ymgynghoriad priodas i gwblhau'r drefn rhaglen ayb. Bydd y ddau ymgynghoriad cyntaf (mwyafrif o un awr yr un) yn rhad ac am ddim. Codir tâl o £75 yr awr am unrhyw ymgynghoriad pellach.

5. Newidiadau:

Os byddwch am wneud newidiadau sylweddol i'r nifer o westeion yn eich gweithgaredd, mae 'Plas Glyn y Weddw' yn neilltuo'r hawl i ddiwygio'r telerau a'r cyfleusterau a gynigir. Mae yswiriant ar gael gogyfer â diddymu gweithgaredd, a dylech gysylltu â'ch brocer am fanylion pellach.

6. Yr Hawl i Ddiddymu:

Mae 'Plas Glyn y Weddw' yn neilltuo'r hawl i ddiddymu unrhyw weithgaredd ar unwaith a heb atebolrwydd ar ei ran os bydd niwed neu ddistryw i'r Oriel gan dân neu unrhyw achos arall, unrhyw brinder llafur neu gyflenwad bwydydd, streic, cloi allan neu aflonyddwch diwydiannol, neu unrhyw achos arall tu allan i reolaeth y safle a all ei atal rhag cario allan ei ymrwymiad ynglŷn ag unrhyw weithgaredd. Mewn amgylchiadau o'r fath, gwneir pob ymdrech i leoli'r weithgaredd mewn sefydliad lleol arall. Mae cyflawniad y cytundeb hwn ar ran 'Plas Glyn y Weddw' felly yn dibynnu ar weithrediadau gan Dduw, llifogydd, tân, rhyfel, cyfraith neu reolau gwlad, diffyg trydanol, streic gan gyflawnwyr neu/ac amodau tu hwnt i'w rheolaeth.

7. Toradwyedd:

Os bydd unrhyw agwedd o'r cytundeb hwn yn cael ei ystyried yn annilys neu anorfodadwy dan y gyfraith, ni fydd dilysrwydd y cytundeb cyfan yn cael ei effeithio, a bydd y darpariaethau eraill yn dal i fod yn ddilys.

8. Diwygiadau:

Mae'r cytundeb hwn wedi'i gytuno'n rhydd, ac ystyrir y cytundeb cyfan felly. Nis cydnabyddir unrhyw newidiadau i'r cytundeb heblaw am rai ysgrifenedig, wedi eu cysylltu, eu dyddio a'u harwyddo an y CLEIANT a 'Phlas Glyn y Weddw' i'r cytundeb hwn.

9. Colled Neu Ladrad:

Nid yw 'Plas Glyn y Weddw' yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ladrad oddi wrth gwsmeriaid neu westeion. Mae darpariaeth ar gyfer cotiau ger y lifft er cyfleustra cwsmeriaid a gwesteion, ond cedwir unrhyw eitem yn y safle hwn yn gyfangwbl ar gyfrifoldeb y perchennog a heb unrhyw rwymedigaeth ar ran yr oriel.

10. Trefn Rhedeg Y Briodas:

Byddwch chwi, y CLEIANT, yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i 'Blas Glyn y Weddw', dim hwyrach na 3 wythnos cyn dyddiad y weithgaredd, nifer y gwesteion fydd yn bresennol yn eich gweithgaredd.

11. Arlwyo:

Byddwch chwi, y CLEIANT, yn trefnu eich darpariaeth arlwyo yn unig gyda deiliaid masnachfraint ein hystafell de, 'Caffi'r Oriel'. Os oes cytundeb arlwyo ynghlwm â'ch gweithgaredd, mae'n rhaid arwyddo cytundeb arlwyo ar wahan dim llai na mis cyn dyddiad y weithgaredd. Er bydd yr arlwywyr yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer pob anghenion deietegol penodol, ni ellir gwarantu dileu elfennau megis cnau ayb yn gyfangwbl.

12. Ymddygiad Afreolus:

Y CLEIANT sy'n gyfrifol am ymddygiad eu gwesteion. Ni fydd 'Plas Glyn y Weddw' yn goddef unrhyw ymddygiad fygythiol, yn eiriol neu yn gorfforol, tuag at unrhyw aelod o staff neu unigolyn. Chwi, y CLEIANT, fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir i 'Blas Glyn y Weddw', hyn i gynnwys unrhyw ddodrefn, offer neu gyfarpar o fewn yr Oriel drwy ddifrod o fwriad neu ddiffyg ar ran y cwsmer, gwesteion ac/neu weithwyr y cwsmer, a byddwch yn talu i'r Oriel y swm a ofynir i wneud iawn am unrhyw ddifrod neu golled a achosir, gan gynnwys digolledu am golli busnes tra fod unrhyw ddifrod yn cael ei atgyweirio. Os bydd i unrhyw rai o westeion y cwsmer (gosod hunan-ddarpar) fethu â thalu am eu llety, y CLEIANT fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifyg ariannol.

13. Costau a Thaliadau:

Mae'r prisiau a manylion yn ddarostyngedig i newidiadau heb rybudd blaenorol. Bydd 'Plas Glyn y Weddw' yn rhoi rhybudd o 30 diwrnod pan fydd hyn yn bosibl. Nid yw TAW yn gynwysedig mewn unrhyw brisiau, os na ddywedir yn wahanol. Mae'r amodau a thelerau, tariffiau a phrisiau a ddyfynir yn gywir ar amser cael eu cyhoeddi, ond cadwn yr hawl i ychwanegu unrhyw gynnydd mewn costau neu i ddiwygio'r amodau a thelerau fel y bo angen heb rybudd blaenorol. Bydd 'Plas Glyn y Weddw' yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r cwsmer pan fo hyn yn bosibl.

14. Manylion Llai:

Mae'n rhaid i bob manylion, dim gwahaniaeth pa mor fach, gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig gan y CLEIANT. Mae hyn y sicrhau y byddwn ni yn darparu y gwasanaeth a ofynwyd gennych. Cofiwch, os nad yw wedi ei gadarnhau ar ddu a gwyn, nid oes rheidrwydd arnom i gyflawni eich gofynion! Drwy gynnal eich gweithgaredd ym 'Mhlas Glyn y Weddw', rydych yn cytuno y gall unrhyw luniau a dynnir ar y safle, yn ymwneud â'r achlysur, gael eu defnyddio, os oes angen, mewn cyhoeddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo'r Oriel yn y dyfodol.

15. Bwcio Eich Gweithgaredd:

Gofynnir i chwi arwyddo'r amodau a thelerau hyn pan fyddwch yn bwcio eich gweithgaredd, ac ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei gadarnhau hyd nes y bydd 'Plas Glyn y Weddw' wedi derbyn copi wedi ei arwyddo.

16. Dulliau Talu:

Gellir gwneud taliadau drwy siec, cerdyn credyd neu debyd neu ei roi yngh nghyfrif banc 'Plas Glyn y Weddw' drwy daliad BACS. Cysylltwch â Nia Mai Jones, ein Rheolwr Cyllid, am fanylion y cyfrif banc ar nia@oriel.org.uk neu ffoniwch 01758 740763 (Llun neu Iau). RHAID DANGOS PRAWF TALU PAN OFYNNIR AM HYNNY.

17. Rheolau Cyffredinol Yr Oriel:

- Rhaid i bob adloniant cerddorol gyda'r nos orffen am 11.00 p.m.
- Amser olaf archebu diod alcoholig yn y bar yw 11.00 p.m.
- Mae'n rhaid i bawb adael yr Oriel ebyn 11.30 p.m. drwy gyfamod gyfrwymol
- Rydym yn caniatau conffeti o betalau naturiol neu o natur bydradwy o amgylch y gerddi. Dim o gwbl o fewn yr adeilad.
- Dim bwyd, diod na phlant ar eu pen eu hunain ar lawr cyntaf yr Oriel.

Rwyf wedi darllen a deall y telerau uchod. Rwyf gan hynny yn derbyn amodau'r cytundeb hwn.

Arwyddwyd ..... (Cleiant sy'n gyfrifol am dalu)

Arwyddwyd ..... (Tyst)

Arwyddwyd ..... (Ar ran 'Plas Glyn y Weddw')

Dyddiad .....

Lleoliad .....

Oriel Plas Glyn-y-Weddw
Llanbedrog
Pwllheli
Gwynedd
North Wales LL53 7TT

e-Bost: ymholiad@oriel.org.uk

Ffôn: 01758 740763
Ffacs: 01758 740232

Rhif TAW: 700 8246 66
Elusen Gofrestredig: 1070495
Cwmni Gofr. Drwy Warant: 02994771